

Ysgol Pant Pastynog

‘Parchu pawb a phopeth’



Ein Gweledigaeth



Mae Ysgol Pant Pastynog yn ysgol hapus, gofalgwr a chroesawgar, sy'n meithrin disgyblion iach a hyderus.

Drwy barchu pawb a phopeth, rydym yn creu dinasyddion sy'n egwyddorol, moesol a gywbodus.

Gosodir ddisgwyliadau uchel ar ddysgwyr er mwyn cyrraedd eu llawn potensial a dod yn gyfranogwyr mentrus a chreadigol.

Bydd gwerthoedd ac ethos Cristnogol yr ysgol yn sylfaen gadarn i fagu disgyblion sy'n uchelgeisiol a galluog, fydd yn aelodau gwerthfawr o'r gymuned ehangach.



Gwarchod ein
amgylchedd


Dysgu yn
yr Awyr
Agored

Meddylfryd
Twf

Dylunio ein
Cwricwlwm

Lles y
plant a'r
Staff

Cyfleoedd a
phrofiadau



Geiriau i ddisgrifio ein ysgol

Ysgol Pant Pastynog



Ysgol Eglwys



*Parchu Pawb
a Phopeth*

Gwybodaeth gefndirol i'r Ysgol

Mae Ysgol Pant Pastynog yn gwasanaethu pentrefi Prion, Peniel, Saron, Nantglyn a thref Dinbych. Ysgol naturiol Gymraeg yw hi, a Chymraeg yw iaith gyntaf y mwyafrif o ddisgyblion yr ysgol. Mae'n ysgol dan reolaeth wirfoddol yr Eglwys yng Nghymru.

Ysgol Pant Pastynog

Ein Gwerthoedd fel Ysgol Eglwys



Ysgol Eglwys



Parchu Pawb
a Phopeth



Mae Ysgol Pant Pastynog yn rhoi cyfle i bob disgybl ddatblygu'n llawn mewn amgylchedd hapus a gofalggar. Rydym yn Parchu Pawb a phopeth' drwy annog disgyblion i:

- Barchu eu hunain
- Barchu eraill yn yr ysgol
- Barchu gwerthoedd ein hysgo Eglwys a
- Pharchu iaith a thraddodiadau Cymru tra'n parchu diwylliannau eraill.

Ysgol Pant Pastynog

Ein Gwerthoedd Ysgol



Ysgol Eglwys



*Parchu Pawb
a Phopeth*

Gwasanaethu - Rydym yn credu fod helpu eraill yn bwysig a byddwn yn achub ar unrhyw gyfle i gefnogi elusennau lleol, Cenedlaethol a Rhyngwladol.

Cyfiawnder - Mae tegwch a thrin pawb yr un fath yn allweddol i ethos yr ysgol a byddwn yn gwrando ar lais y plentyn ac yn addysgu'r digybllion er mwyn pwysleisio fod unrhyw wahaniaethu hiliol neu rywiol yn gwbl annerbyniol.

Maddeuant - Yn yr ysgol rydym yn annog goddefgarwch a 'thrin eraill fel yr hoffech gael eich trin eich hun. Rydym yn annog y plant i faddau a rhoi ail gyfle i'w gilydd.

Parchu - Drwy roi pob math o brofiadau gan gynnwys addysgu yn yr awyr agored, rydym yn hyrwyddo parch a gofal am yr amgylchedd. Mae gennym ddisgwyliadau uchel ac mae disgwyl i'r plant barchu ei gilydd, barchu staff ac ymwelwyr a pharchu eiddo yn barhaus.

Cariad - Mae awyrgylch braf yn yr ysgol ac mae lles y plant a staff yn ganolog i bob dim. Byddwn yn defnyddio syniadau Meddylfryd Twf wrth feithrin disgyblion hyderus a chariadus.

Ysgol Pant Pastynog



Ysgol Eglwys



*Parchu Pawb
a Phopeth*

Buom yn gwranddo ar
ddysgwyr, rhieni, staff a
Llywodraethwyr ar gyfer
creu ein gweledigaeth.
Dyma'r geiriau allweddol
oedden nhw'n teimlo oedd
yn disgrifio'r ysgol orau.



Ysgol Pant Pastynog

Pethau Pwysig i ni



Ysgol Eglwys



*Parchu Pawb
a Phopeth*

- **Lles Plant a Staff** - Mae sicrhau iechyd a lles plant a staff yr ysgol yn bwysig iawn i ni. Rydym yn cynnig amrywiaeth o weithgareddau sy'n hybu iechyd a lles gan gynnwys sesiynau ar bwysigrwydd bwyta'n iach, yfed digon o ddŵr, cael digon o gwsg, sesiynau yoga, gweithgareddau ymarfer corff wythnosol, cael hyfforddwyd i ddod mewn i'r ysgol a chyfle i blant a staff sgwrsio gyda'i gilydd am bwysigrwydd cael corff a meddwl iach.
- **Cyfleoedd a phrofiadau** - Credwn yn gryf fod cynnig profiadau a chyfleoedd addysgiadol yn cyfoethogi addysg y dysgwyr. Wrth fynd ar ymweliadau, sgwrsio a thrafod gyda pherson gwadd neu gymryd rhan mewn gweithdy penodol, mae hyn i gyd yn gymorth i wreiddio cysyniadau a sgiliau'r plant.
- **Llais y plentyn** - Wrth ddilyn trywydd y plant, rydym yn rhoi cymhelliant iddynt ddysgu am yr hyn sydd o ddiddordeb iddyn nhw ac mae hefyd yn gymorth iddynt ddod yn ddysgwyr annibynnol.
- **Gwarchod yr amgylchedd** - Mae'n bwysig fod y plant yn deall pa mor fregus yw'r byd. Gyda chynhesu byd eang, llygredd a sawl anifail yn diflannu, rhaid gwarchod ein hamgylchedd ar gyfer y dyfodol.
- **Dysgu yn yr Awyr agored** - Mae dysgu yn yr awyr agored yn gymorth eto i hybu lles ac iechyd y plant. Wrth ddefnyddio'r ardal tu allan, rydym yn gallu dysgu mwy am natur, dysgu sgiliau newydd a sut i ddatrys problemau tu allan y dosbarth.
- **Meddylfryd Twf** - Mae plant (ac oedolion) sydd â meddylfryd twf yn credu bod modd datblygu eu gallu trwy ymdrech, dyfalbarhad a dysgu o'u camgymeriadau. Mae'n bwysig fod plant yn deall efallai nad ydynt yn gallu gwneud rhyw sgil yn gywir ar hyn o bryd, ond wrth barhau i ymarfer, dyfarbarhau y byddent yn llwyddo yn y diwedd.

Ysgol Pant Pastynog



Ysgol Eglwys



Parchu Pawb
a Phopeth

Ein Cwricwlwm

Cwricwlwm ysgol ydy'r cynllun ar gyfer beth fydd dysgwyr yn ei ddysgu yn Ysgol Pant Pastynog, ein nod yma yw helpu plant i gyflawni'r 4 diben a cyrraedd ei llawn potensial.

Dysgwyr Uchelgeisiol a Galluog

Dyma ddysgwyr sy'n credu yn eu hunain a beth maen nhw'n gallu ei wneud. Mae nhw eisiau dysgu a gwneud yn well.



Mentrus a Chreadigol

Dyma ddysgwyr sy'n gallu bod yn greadigol a meddwl am syniadau newydd. Maent yn gallu datrys problemau yn eu gwaith.



Y
4 Diben

Dinasyddion Egwyddorol a Gwybodus

Dyma ddysgwyr sy'n deall eu hawliau a'u cyfrifoldebau. Yn cymryd rhan yn eu cymuned ac yn edrych ar ôl y byd.



Iach ac Hyderus

Dyma ddysgwyr sydd a meddwl a chorff iach. Maent yn teimlo'n dda amdanyn nhw eu hunain ac am yr hyn mae nhw'n credu ynddo.



Ysgol Pant Pastynog

Ein Cwricwlwm

Mae Ysgol Pant Pastynog yn dysgu'n thematic, ac rhoddir gyfle i ddisgyblion gyfrannu at yr hyn y maent eisiau ei ddysgu o fewn y thema.

Ein Nod yw:

- Creu amgylchfyd ac awyrgylch lle gall plant dyfu, datblygu ac aeddfedu i ddod yn unigolion hyderus, yn ymwybodol o les eraill ac yn aelodau cyfrifol o gymdeithas.
- Cynnig addysg o'r ansawdd uchaf bosibl sy'n adlewyrchu gofynion yr unigolyn a'u rôl yn y gymuned, Cymru a'r Byd.
- Galluogi pob plentyn i ddatblygu i fod yn rhugl yn y Gymraeg a'r Saesneg fel y gallant gymryd rhan ym mywyd cymdeithasol a diwylliannol y gymdeithas.
- Creu awyrgylch hapus sy'n seiliedig ar gydberthynas o barch a gofal rhwng plant a'i gilydd, rhwng athrawon â phlant a rhwng athrawon a'i gilydd er mwyn caniatáu i'r plant ymagweddu'n gadarnhaol a datblygu mewn hunanhyder.
- Sicrhau bod plant yn cael cyfle cyfartal trwy ddarparu ar eu cyfer gwricwlwm sy'n berthnasol, yn wahaniaethol ac yn eang a chytbwys.



Ysgol Eglwys



*Parchu Pawb
a Phopeth*

Ysgol Pant Pastynog



Ysgol Eglwys



Parchu Pawb
a Phopeth

Beth ddylai plant ddysgu?

Er mwyn cyrraedd eu llawn potensial, mae'n bwysig rhoi profiadau addysgiadol sy'n ennyn diddordeb, cynnig profiadau bywyd go iawn a chynnig cyfleoedd rheolaidd i ymarfer eu sgiliau. I gyflawni hyn rydym yn addysgu'r 6 Maes Dysgu canlynol...

Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu

Cymraeg, Saesneg, Ieithoedd eraill,
Llenyddiaeth

Iechyd a Lles

Iechyd y corff, iechyd meddwl,
perthnasoedd iach a gwneud
penderfyniadau bywyd da.

Y Dyniaethau

Hanes, Daearyddiaeth, Crefydd
Gwerthoedd a Moeseg, Busnes ac
Astudiaethau Cymdeithasol

Mathemateg a Rhifedd

Cyfrifo, Rhesymu, Datrys Problemau,
Elfennau Busnes

Y Celfyddydau

Celf, Dawns, Ffilm, Drama, Cerddoriaeth
a chreu yn Ddigidol.

Gwyddoniaeth a Thechnoleg

Bioleg, Cemeg, Ffiseg, Dylunio a
Thechnoleg, Cymhwysedd Digidol.

Ysgol Pant Pastynog



Ysgol Eglwys



Parchu Pawb
a Phopeth

Beth ddylai rhywun ei Ddysgu? - Mae'r datganiadau isod, yn helpu athrawon i wneud yn siŵr bod yr hyn a ddysgir, yn cysylltu â'i gilydd ac yn helpu i symud eich plentyn yn ei flaen.

Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu

- **HSB1** - Mae ieithoedd yn ein cysylltu â'n gilydd.
- **HSB2** - Mae deall ieithoedd yn allweddol i ddeall y byd o'n hamgylch.
- **HSB3** - Mae mynegi ein hunain drwy ieithoedd yn allweddol i gyfathrebu.
- **HSB4** - Mae llenyddiaeth yn tanio'r dychymyg ac yn ysbrydoli creadigrwydd.

Iechyd a Lles

- **HSB1** - Mae datblygu iechyd a lles y corff yn arwain at fuddiannau gydol oes.
- **HSB2** - Mae'r ffordd rydym yn prosesu ein profiadau ac yn ymateb iddyn nhw yn effeithio ar ein hiechyd meddwl a'n lles emosiynol.
- **HSB3** - Mae'r ffordd rydym yn gwneud penderfyniadau yn effeithio ar ansawdd ein bywydau ni a bywydau eraill.
- **HSB4** - Mae'r ffordd rydym yn ymwneud â dylanwadau cymdeithasol yn siapio pwy ydyn ni, ac yn effeithio ar ein hiechyd a'n lles.
- **HSB5** - Mae cydberthnasau iach yn hanfodol ar gyfer ein lles.

Y Dyniaethau

- **HSB1** - Mae ymholi, archwilio ac ymchwilio yn ysbrydoli chwilfrydedd am y byd, ei offennol, ei bresennol a'i ddyfodol.
- **HSB2** - Mae digwyddiadau a phrofiadau dynol yn gymhleth a chânt eu hamgylfydd, eu dehongli a'u cynrychioli mewn gwahanol ffyrdd.
- **HSB3** - Mae ein byd naturiol yn amrywiol a deinamig, wedi'i ddylanwadu gan brosesau a gweithredoedd dynol.
- **HSB4** - Mae cymdeithasau dynol yn gymhleth ac yn amrywiol, ac maen nhw'n cael eu llywio gan weithredoedd a chredoau pobl.
- **HSB5** - Mae dinasyddion gwybodus, hunanymwybodol yn mynd i'r afael â'r heriau a'r cyfleoedd sy'n wynebu dynoliaeth, ac yn gallu cymryd camau ystyrlon ac egwyddorol.

Mathemateg a Rhifedd

- **HSB1** - Defnyddir y system rif i gynrychioli a chymharu'r perthnasoedd rhwng rhifau a meintiau.
- **HSB2** - Mae algebra yn defnyddio systemau symbolau i fynegi strwythur perthnasoedd mathemategol.
- **HSB3** - Mae geometreg yn canolbwyntio ar berthnasoedd sy'n ymwneud â siâp, gofod a safle, ac mae mesur yn canolbwyntio ar feintioli ffenomena yn y byd ffisegol.
- **HSB4** - Mae ystadegau yn cynrychioli data, mae tebygolrwydd yn modelu siawns, ac mae'r ddau yn cefnogi casgliadau a phenderfyniadau gwybodus.

Y Celfyddydau Mynegiannol

- **HSB1** - Mae archwilio'r celfyddydau mynegiannol yn hanfodol er mwyn dyfnhau sgiliau a gwybodaeth gelfyddydol, ac mae'n galluogi dysgwyr i ddod yn unigolion chwilfrydig a chreadigol.
- **HSB2** - Mae ymateb a myfyrio, fel artist ac fel cynulleidfia, yn rhan hanfodol o ddysgu yn y celfyddydau mynegiannol.
- **HSB3** - Mae creu yn cyfuno sgiliau a gwybodaeth, gan dynnu ar y synhwyrau, ysbrydoliaeth a dychymyg.

Gwyddoniaeth a Thechnoleg

- **HSB1** - Mae bod yn chwilfrydig a chwilio am atebion yn hanfodol i ddeall a rhagfynegi ffenomenau.
- **HSB2** - Mae meddylfryd dylunio a pheiranneg yn cynnig ffyrdd technegol a chreadigol i ddiwallu anghenion a dymuniadau cymdeithas.
- **HSB3** - Mae'r byd o'n cwmpas yn llawn pethau byw sy'n dibynnu ar ei gilydd i oroesi.
- **HSB4** - Mae mater, a'r ffordd y mae'n ymddwyn, yn diffinio ein bydysawd ac yn ffurfio ein bywydau.
- **HSB5** - Mae grymoedd ac egni yn gosod sail i ddeall ein bydysawd.
- **HSB6** - Mae cyfrifiaduraeth yn gosod sail i'n byd digidol.

Ysgol Pant Pastynog



Ysgol Eglwys



Parchu Pawb
a Phopeth

**Esiamplau o waith oddi fewn y
Meysydd Dysgu.**



**Dysgu sgil ee deall sut i
ysgrifennu llythyr ac yna ei
ddefnyddio i bwrpas wrth
ysgrifennu llythyr i godi calon
cymdogion lleol.**


leithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu

Cyfle i feithrin a datblygu ar eu sgiliau leithyddol a Llythrennedd ac yna ei ddefnyddio i bwrpas.



**Llunio poster i hyrwyddo
lleihau ôl troed carbon**

**Ysgrifennu adroddiad yn
dilyn ymweliad addysgol.**



Ysgol Pant Pastynog



Ysgol Eglwys



Parchu Pawb
a Phopeth

Iechyd a Lles

Cynnal a datblygu ymhellach dealltwriaeth y plant o'r pwysigrwydd o gadw'n iach yn gorfforol a meddyliol, rhoi cyfle i drio sgiliau newydd, a'u hannog i wneud y penderfyniadau cywir mewn bywyd.



**Pwysigrwydd o fwyta'n iach,
yfed digon o ddŵr, cysgu,
ymlacio a chadw'n heini**

**Ymwelwyr fel Elen Wynne yn
dod i'r ysgol**

**Pwysigrwydd o
ddatblygu sgiliau newydd**

Ysgol Pant Pastynog



Ysgol Eglwys



Parchu Pawb
a Phopeth

Y Dyniaethau

Meithrin sgilliau a
dealltwriaeth
hanesyddol,
crefyddol a moesol.



Meddwl am eraill yn ein
cymuned



Ymweliadau i'r Gadeirlan

Dysgu am y gorffennol



Ymweliadau rheolaidd gan y
Parchedig Martin Pritchard



Ysgol Pant Pastynog



Ysgol Eglwys



PANT PASTYNOG
Parchu Pawb
a Phopeth

Mathemateg a Rhifedd

Cyfle i feithrin a datblygu eu sgiliau Mathemategol a Rhifedd ac yna cymhwyso rhain i ddatrys problemau bywyd go iawn.

**Dysgu Mathemateg drwy
gwneud tasgau ymarferol**



Cyfri fesul 2 a 5 yn ymarferol


**Dysgu tablau
drwy chwarae gemau**



**Datrys
Problemau o
gwmpas yr
ysgol**



Mesur
gyda cm



Mesur



Gwath mesur



PIC•COLLAGE

**Datblygu
sgiliau
mesur**

Ysgol Pant Pastynog

Y Celfyddydau

Cyfle i feithrin a datblygu eu sgiliau creadigol, boed yn ganu, actio neu berfformio.



Cyfle i gymryd rhan mewn cystadleuaeth Cwis Llyfrau.



Cymryd rhan mewn gwasanaethau Diolchgarwch.



Cyfle i berfformio o flaen cynulleidfa - Criadur Dawns Creadigol.



Ysgol Eglwys



Parchu Pawb
a Phopeth

Ymwelwyr fel Eleri Watkins yn dod i'r ysgol i hyfforddi'r plant.



Ysgol Pant Pastynog

Gwyddoniaeth a Thechnoleg
Cyfle i arbrofi ac ymchwilio.....



Ysgol Eglwys



Parchu Pawb
a Phopeth



**Gweithdai Technocamps
ac Xplore**



Ysgol Pant Pastynog



Ysgol Eglwys

Parchu Pawb
a Phopeth

Cynllunio'r Cwricwlwm

Wrth gynllunio rhoddir pwyslais ar gynnig profiadau eang, gwerthfawr a diddorol sydd yn briodol i oedran ein dysgwyr. Bydd 'Llais y Plentyn' wrth wraidd yr hyn a addysgir.



Ysgol Pant Pastynog

Asesu a Chynnydd



Ysgol Eglwys



Parchu Pawb
a Phopeth

Mae dilyniant dysgwyr ar hyd continwm dysgu rhwng 3 ac 16 oed yn ganolog i'r Cwricwlwm i Gymru. Byddwn yn defnyddio amrywiol strategaethau asesu a fydd yn galluogi pob dysgwr unigol i wneud cynnydd ar gyflymder priodol, gan sicrhau eu bod yn cael eu cefnogi a'u herio yn unol â hynny. I ddechrau, byddwn yn defnyddio Taith 360 fel adnodd asesu a thracio.

Rydym yn defnyddio amrywiol strategaethau asesu fel diben cyffredinol yn y cwricwlwm i gefnogi pob dysgwr i wneud cynnydd. Yn ogystal â hyn, mae asesu yn chwarae rôl sylfaenol mewn sicrhau bod pob dysgwr unigol yn cael ei gefnogi a'i herio'n briodol, mae hefyd yn llywio'r camau nesaf o ran dysgu ac addysgu.

Mae ein hasesiadau'n cefnogi cynnydd dysgwyr unigol yn barhaus o ddydd i ddydd; yn nodi, cofnodi a myfyrio ar gynnydd dysgwyr unigol dros amser; ac yn deall cynnydd grwpiau er mwyn adlewyrchu ar ein hymarfer. Fe gedwir sampl o waith ysgrifennu, llafar, darllen a rhifedd yn ogystal a'u datblygiad llesol ac emosiynol.

Rydym hefyd yn asesu ac yn monitro lles pob dysgwr (PASS). Defnyddir yr asesiadau hyn i lunio ciplun manwl sy'n darparu targedau cyrhaeddiad, cynnydd a lles.

Adrodd yn ôl i Rieni

Rydym yn cyfathrebu'n effeithiol gyda rhieni/gofalwyr yn barhaus i feithrin perthnasoedd cadarnhaol, gall hyn fod yn nosweithiau rieni neu adroddiad diwedd flwyddyn. Rydym yn rhannu yr hyn ag addysgir yn yr ysgol drwy e.e. wyneb yn wyneb, digidol drwy SeeSaw, Trydar ac e-bost wythnosol.

Mae gwybodaeth am unrhyw gymorth, ymyraethau neu anghenion ychwanegol sydd eu hangen ar gyfer datblygiad y dysgwr yn cael ei rhannu gyda rhieni a gofalwyr.

